

Cylchlythyr Cymunedol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

Pasg 2021

Mae'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn yr ystâd addysgol ledled Cymru.

Mae tair ysgol uwchradd Y Barri a dau brosiect ysgolion cynradd Gorllewin y Fro yn mynd rhagddynt yn dda gyda dau o'r prosiectau bron â'u cwblhau. Darllenwch ymhellach i gael gwybod mwy am y prosiectau a chymorth cymunedol.



YSGOLION GYNRADD GORLLEWIN Y FRO



Mae Ysgol Gynradd Llancarfan ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant (yn y llun ar y chwith) yn mynd rhagddynt yn dda ar y safle gyda phrif gontractwr ISG. Mae'r ffrâm ddrur i fyny ar gyfer Dewi Sant, mae'r ffenestri'n cael eu gosod ac mae gwaith mewnlun ar y gweill. Mae'r ffrâm ddrur yn cael ei gosod yn Llancarfan a phan fydd wedi'i chwblhau, bydd y gwaith yn dechrau ar y to a gosod y llawr cyntaf a'r ail lawr. Bydd y gwaith ar y prosiect hwn yn parhau tan hydref 2021 a dyma fydd ysgolion cynradd defnydd carbon isel a charbon sero-net cyntaf y Fro.



Mae'r ddau brosiect yn cynyddu eu hymdrechion cymorth cymunedol. Mae'r safleoedd wedi bod yn casglu rhoddion bywyd i'w rhoi i Llamau a Banc Bwyd Caerdydd. Mae ISG hefyd yn bwriadu arddangos cyfleoedd gyrfa yn y diwydiant adeiladu i ddisgyblion, gan weithio ochr yn ochr â Gyrfa Cymru i ddangos bod y sector yn wych i weithio ynddo.



Cymryd Rhan!

I ddathlu Mis Hanes Cymunedol ym mis Mai, rydym yn lansio tri llwybr hanes cymunedol sy'n dechrau yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, Ysgol Uwchradd Pencoedre ac Ysgol Uwchradd Whitmore. Cyflwynwyd syniadau gan y gymuned leol ac mae pob pwynt ar y llwybr yn dathlu digwyddiad hanesyddol pwysig, tirnod neu ffigwr arwyddocaol yn Y Barri. Ewch am dro hamddenol ar hyd un ohonynt neu heriwch eich hun drwy gwblhau'r tri.

Bydd y mapiau'n cael eu lansio ym mis Mai, ewch i'n cyfrif twitter **@CBroMorgannwg** neu'n gwefan am fanylion (dolen ar y dudalen gefn). Os hoffech rannu unrhyw luniau o'r llwybr, defnyddiwch yr hashnod **#LlwybrHanesCymunedolyBarri**.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae prosiectau buddion cymunedol Ysgolion yr 21ain Ganrif y Fro wedi cyflawni...



Gweithlu o ...	
Gymru = 89%	Cod post = 56%
1,820 o bobl	1,026 o bobl

144 o swyddi llawn amser newydd = **9,070** o wythnosau person o swyddi newydd
64 o brentisiaethau **47** o leoliadau profiad gwaith
4,476 wythnos person o hyfforddiant



DATHLU ARLOESED

Mae cwmni CASS Scaffolding yn Y Barri, gyda chymorth y contractwyr Morgan Sindall a Bouygues UK, wedi sefydlu'r ganolfan hyfforddi sgaffaldau gyntaf yng Nghymru gyda Chanolfan Arloesi Adeiladu Cymru. Ariennir y cwrs yn llawn gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a bydd yn mynd â dysgwyr drwy raglen ddysgu strwythuredig 18 mis yn Abertawe. Bydd y prentisiaid yn cael profiad ymarferol ar brosiectau Ysgol Uwchradd Whitmore a Phencoedre.

Dywedodd un prentis am y cynllun:
“Rwy'n falch o gael cynnig cyfle i gael gwaith sefydlog gyda'r cyfle i gynilo ar gyfer car a dysgu masnach yn yr amgylchedd iawn.”



Dysgwch fwy! 01446 709 828 www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/schools_in_the_vale/21st-Century-Schools/21st-Century-Schools.aspx

21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk

Correspondence is welcomed in Welsh. This flyer is also available in Welsh.



YSGOL GYMRAEG BRO MORGANNWG



Cynnydd y Prosiect

Mae gwaith safle yn mynd rhagddo'n dda, a'r ffocws ar gyfer 2021 yw cyflawni gwaith ailfodelu ac adnewyddu cymhleth y manau mewnol heb effeithio ar gyflwyno gwersi.

Mae gwaith ar estyniad newydd y gegin, y fynedfa disgyblion a'r grisiau yn parhau. Pan fyddant wedi'u cwblhau bydd yr ychwanegiadau hyn yn cysylltu pob rhan o'r ysgol gyda'i gilydd am y tro cyntaf.



Cymorth Cymunedol



Cyn



Ar ôl

Mae'r contractwr ISG wedi bod yn brysur yn helpu Ysgol Gynradd Gwaun-y-Nant. Gyda chymorth y contractwr lleol Landcraft, treuliodd tîm y safle ddau ddiwrnod ar dir yr ysgol, gan glirio'r gordyfiant ac adfywio'r ardal bywyd gwylt. Defnyddir y maes hwn ar gyfer addysg awyr agored gyffrous, yn cefnogi lles disgyblion a gwybodaeth am y byd naturiol.



YSGOL YWCHRADD PENCOEDTRE



Cynnydd y Prosiect

Mae'r gwaith safle yn mynd rhagddo'n hwylus gyda chodi toeau a chladin bellach ar y gweill ac mae ffenestri'n cael eu gosod, gan roi syniad o sut olwg fydd ar yr adeilad gorffenedig. Cwblhawyd un o'r tywalltiadau concrid olaf ddechrau mis Mawrth, a disgwyliar i lawr y neuadd chwaraeon gael ei gwblhau ym mis Ebrill. Mae gwaith mewnol wedi dechrau gan gynnwys gosod waliau mewnol a system chwistrellu.



Cymorth Cymunedol

Mae'r Contractwr Bouygues UK wedi lansio menter ar y cyd â Sefydliad Cymunedol Gleision Caerdydd yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre. Mae'r rhaglen TACKLE yn rhaglen ymgysylltu â chwaraeon gyda gweithdai i ymgysylltu, ysbrydoli a chymhell pobl ifanc drwy gwricwlwm amgen.



Mae'r garfan gyntaf o ddisgyblion yn cynnal rhaglen wyth wythnos ar hyn o bryd, sy'n cynnwys sesiynau ymarferol ac yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â chwblhau cymhwyster Agored Cymru. Bydd y prosiect yn cynnwys tua 100 o ddisgyblion ac mae'r adborth hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn.



YSGOL UWCHRADD WHITMORE



Cynnydd y Prosiect

Mae'r gwaith o adeiladu adeilad newydd sbon yr ysgol bron wedi'i gwblhau. Mae'r elfennau terfynol yn cael eu gosod fel y gellir trosglwyddo'r ysgol newydd anhygoel hon i staff a disgyblion. Yna bydd cam nesaf y gwaith yn dechrau a fydd yn cynnwys dymchwel yr hen adeiladau a chreu caeau chwaraeon newydd.



Cymorth Cymunedol

Mae'r Contractwr Morgan Sindall wedi bod yn gweithio gyda Chanolfan Palmerston ar gyfer Dysgu Gydol Oes i'w helpu i wella eu manau awyr agored.



Uwchraddiodd y tîm lwybr ac adeiladu rhai blychau plannu dyrchafedig hygyrch trawiadol, ynghyd â ffens ddiogelwch. Bydd hwn yn lle awyr agored gwyth i'r rhai sy'n defnyddio'r ganolfan ac mae'r tîm yn edrych ymlaen at weld beth maen nhw'n ei dyfu!

